# Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol

**Cofnodion y Cyfarfod:**

| | |
|---|---|
| Teitl y Grŵp Trawsbleidiol: | Y Lluoedd Arfog a'r Cadetiaid |
| Dyddiad y cyfarfod: | 7 Gorffennaf 2021 |
| Lleoliad: | Zoom |

**Yn bresennol:**

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Darren Millar AS | Aelod o'r Senedd, Gorllewin Clwyd |
| Alun Davies AS | Aelod o'r Senedd, Blaenau Gwent |
| Peter Fox AS | Aelod o Senedd, Mynwy |
| Sam Rowlands AS | Aelod o'r Senedd, Gogledd Cymru |
| Jack Sargeant AS | Aelod o'r Senedd, Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Joel James AS | Aelod o'r Senedd, Canol De Cymru |
| Altaf Hussain AS | Aelod o'r Senedd, Dwyrain De Cymru |
| Laura Jones AS | Aelod o'r Senedd, Dwyrain De Cymru |
| Mike Hedges AS | Aelod o'r Senedd, Dwyrain Abertawe |
| Mark Isherwood AS | Aelod o'r Senedd, Gogledd Cymru |
| Sam Kurtz AS | Aelod o'r Senedd, Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| James Evans AS | Aelod o'r Senedd, Brycheiniog a Sir Faesyfed |
| Lisa Shipton | Adferiad Recovery |
| Geraint Jones | Adferiad Recovery |

| | |
|---|---|
| Peter Evans | Llywodraeth Cymru |
| Y Brigadydd Andrew Dawes | Comander Brigâd 160 |
| Cyrnol Dominic Morgan | Cymdeithas Lluoedd Wrth Gefn a Chadetiaid dros Gymru |
| Comodor yr Awyrlu Dai Williams | Swyddog Awyr Cymru |
| Janet Jones | Llywodraeth Cymru |
| Y Brigadydd Jock Fraser | Comander Rhanbarthol Llyngesol, Cymru a Gorllewin Lloegr |
| Lisa Rawlings | Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog |
| Stephen Townley | Swyddog Cyswllt Rhanbarthol Cyfamod y Lluoedd Arfog |
| Harry Saville | Swyddfa Sam Rowlands AS |
| Ian Pritchard | Swyddog Cymorth y Lluoedd Arfog |
| John Williams | Y Lleng Brydeinig Frenhinol |
| Megan Greatrex | Cronfa Cyfamod y Lluoedd Arfog |
| Scott Emanuel | Swyddfa Buffy Williams AS |
| Dave Price | Partneriaeth Cyn-filwyr Cymru |
| Simon Firth | CAIS |
| Hannah Jarvis | Swyddfa Joel James AS |
| Francis Whitefoot | Swyddfa Heledd Fychan AS |

## Ymddiheuriadau:

| Enw: | Teitl: |
|---|---|
| Rhianon Passmore AS | Aelod o'r Senedd, Islwyn |
| Jane Dodds AS | Aelod o'r Senedd, Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Llyr Gruffydd AS | Aelod o'r Senedd, Gogledd Cymru |
| Sarah Murphy AS | Aelod o'r Senedd, Pen-y-bont ar Ogwr |

## Crynodeb o'r cyfarfod:

1. Croeso a chyflwyniadau:

   • Croesawodd Darren Millar AS, y cynullydd, bawb i'r cyfarfod, gan roi trosolwg o ddiben y Grŵp Trawsbleidiol. Talodd deyrnged hefyd i'r Cyrnol Nick Beard, sydd wedi ymddeol yn ddiweddar yn dilyn cyfnod o 11 mlynedd

yn gwasanaethu fel Prif Swyddog Gweithredol Cymdeithas Lluoedd wrth Gefn a Chadetiaid Cymru, mewn perthynas â'i gyfraniad at y Grŵp Trawsbleidiol dros y blynyddoedd. Yna, croesawodd y Cyrnol Dominic Morgan i'w rôl newydd.

2. Busnes y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol – Ethol Cadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd.

   • Cafodd Darren Millar AS ei enwebu gan Mike Hedges AS ar gyfer rôl y Cadeirydd. Cafodd yr enwebiad ei eilio gan Laura Anne Jones AS. Yn sgil hynny, cafodd Darren Millar AS ei ethol yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

   • Cafodd Alun Davies AS ei enwebu gan Jack Sargeant AS ar gyfer rôl yr Is-gadeirydd. Cafodd yr enwebiad ei eilio gan Mike Hedges AS. Yn sgil hynny, cafodd Alun Davies AS ei ethol yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

   • Cafodd Curtis Shea ei enwebu gan Darren Millar AS ar gyfer rôl yr Ysgrifennydd. Cafodd yr enwebiad ei eilio gan Alun Davies. Yn sgil hynny, cafodd Curtis Shea ei ethol yn Ysgrifennydd ar gyfer y flwyddyn i ddod.

3. Darparodd y Brigadydd Andrew Dawes sesiwn friffio ar Gynllun Lluoedd Arfog y Senedd.

   • Dechreuodd y Brigadydd Andrew Dawes drwy roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r grŵp am rôl y Lluoedd Arfog o ran ymateb i COVID yng Nghymru. Defnyddiodd y Lluoedd Arfog 1,200 o bersonél y gwasanaethau i gynorthwyo yn y frwydr yn erbyn COVID yng Nghymru. Bydd y Lluoedd Arfog yn parhau i gynorthwyo'r GIG yng Nghymru. Diolchodd y Brigadydd i Gomodor yr Awyrlu Dai Williams a'r Brigadydd Jock Fraser am y rôl a chwaraewyd ganddynt yn ymateb y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

   • Nododd y Cadeirydd fod Baner yr Undeb a Baner Cymru yn cael eu harddangos yn y cefndir gan y Brigadydd Andrew Dawes.

   • Darparodd y Brigadydd Andrew Dawes sesiwn friffio i'r grŵp ar Gynllun Lluoedd Arfog y Senedd, gan roi enghreifftiau o'r modd yr ymgysylltwyd ag Aelodau yn ystod tymhorau blaenorol y Senedd. Cafodd yr Aelodau eu hannog i gofrestru ar gyfer y cynllun gyda'r ysgrifenyddiaeth. Bydd pob Gwasanaeth yn ceisio trefnu digwyddiad ymgysylltu unwaith y bydd cyfyngiadau COVID-19 yn cael eu llacio. Cyfrannodd Comodor yr Awyrlu Dai Williams a'r Brigadydd Jock Fraser at y drafodaeth.

4. Darparodd yr Athro Simon Denny sesiwn friffio ar Adroddiad Cadetiaid Prifysgol Northampton ar gyfer 2021.

    • Rhoddodd yr Athro Denny gyflwyniad i'r grŵp am ei waith ac am yr ymchwil a wnaed ganddo rhwng 2016 a 2020. Canfu ei adroddiad fod cymryd rhan yng ngweithgarwch Lluoedd y Cadetiaid yn cael effaith gadarnhaol sylweddol ar bobl ifanc, gan gynyddu eu perfformiad yn yr ysgol a gwella eu rhagolygon cyflogaeth a gyrfa. Canfu'r adroddiad hefyd fod hunan-effeithiolrwydd yn gwella yn sgil bod yn rhan o'r cadetiaid a bod hynny'n fudd sylweddol a oedd yn deillio o'r profiad.

    • Yn sgil problemau technegol, ni lwyddodd yr Athro Denny i gwblhau ei sesiwn friffio. Camodd y Brigadydd Andrew Dawes i'r adwy, gan ei fod ef wedi cael ei friffio gan yr Athro Denny. Trafododd y grŵp ganfyddiadau'r adroddiad.

    • Gellir darllen yr adroddiad **yma**.

5. Camau gweithredu.

    • Cytunodd y Grŵp i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru er mwyn gofyn am ymateb i adroddiad yr Athro Denny ac er mwyn gofyn am gymorth parthed y broses o ehangu grwpiau Cadetiaid ledled Cymru, a hynny yn sgil y buddion a nodwyd eisoes. Yn ogystal, cytunodd y Grŵp i ofyn am gymorth gan Weinidogion ar gyfer y broses o recriwtio gwirfoddolwyr i gynnal grwpiau Cadetiaid ledled Cymru.

    • Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon manylion cyswllt y tri Arweinydd gwasanaeth yng Nghymru at yr Aelodau a ofynnodd amdanynt.

    • Bydd yr Ysgrifennydd yn gwahodd yr Aelodau i gofrestru buddiant yng Nghynllun Lluoedd Arfog y Senedd, ac i gylchredeg y dyddiadau ar gyfer gweithgareddau unwaith y bydd y trefniadau yn cael eu cadarnhau.

6. Diwedd y cyfarfod.